# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 14.03.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Dewi Llewelyn

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), Alun Evans (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd), Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – PLAS GWYNFRYN, LLANBEDR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Ms Ffion Muscroft, Swyddog Iechyd Amgylchedd, Cyngor Gwynedd

**Eraill ar ran y Cyngor:** Mr Alun Evans, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd

**Ar ran Plas Gwynfryn:** Ms Caroline Evans a Mr Michael Roberts

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Michael Scott

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd i adolygu trwydded eiddo Plas Gwynfryn, Llanbedr. Cyflwynwyd y cais oherwydd cwynion sŵn o gerddoriaeth chwyddedig a dderbyniwyd sy'n achosi niwsans honedig i breswylwyr cyfagos yn ystod cyfnodau lle ceir adloniant tu fewn i'r babell fawr ar yr eiddo. Gwneir y cais mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu nac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sylwadau ar y cais ond derbyniwyd gwrthwynebiadau gan rhai o drigolion y tai cyfagos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran Adran Gwarchod y Cyhoedd, hysbysodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd y derbyniwyd cwynion ynglyn â sŵn cerddoriaeth chwyddedig yn dod o'r babell fawr. Yn ystod haf 2011 derbyniodd y gwasanaeth rhagor o gwynion ac yn dilyn hyn ymgymerwyd a gwaith i fonitro'r sŵn ar ddau achlysur, y cyntaf ym Mehefin ac yna yn Awst 2011. Pan fonitrwyd y sŵn ym

Mehefin, 'roedd y curiad bas i'w glywed tu fewn i eiddo cyfagos a phan fonitrwyd y sŵn wedyn yn Awst 2011 'roedd sŵn cerddoriaeth i'w glywed. 'Roedd o'r farn nad yw perchennog Plas Gwynfryn heb wneud unrhyw ymdrech i geisio lleihau lefel y sŵn ac 'roedd angen iddi roddi mesuriadau mewn lle i atal y sŵn o'r babell fawr. Gofynnodd am atal cerddoriaeth chwyddedig o'r babell fawr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed nifer y digwyddiadau a gynhelir yn y babell fawr, hysbysodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd bod y nifer yn amrywio. Cadarnhaodd deilydd y drwydded y cynhaliwyd chwe digwyddiad yn ystod 2010 a pump digwyddiad yn ystod 2011.

Ymatebodd deilydd y drwydded i rai o'r sylwadau uchod fel a ganlyn:-

- Bod llawer o'r digwyddiadau'n gorffen hanner awr cyn yr amser a ganiateid ar y drwydded ac felly gwneir ymdrechion i geisio ymateb i bryderon trigolion y tai cyfagos.
- Na dderbyniwyd manylion pendant gan yr Adran Iechyd Amgylchedd yn nodi lefelau sŵn derbyniol.
- Y cynhaliwyd dau o'r digwyddiadau gyda band byw yn diddori gyda "DJ" yn diddori yn y gweddill o'r digwyddiadau.
- Y gofynnwyd am ragor o arweiniad gan yr Adran Iechyd Amgylchedd.
- Bod y mwyafrif o'r trigolion cyfagos yn cefnogi eu gweithgareddau a derbyniwyd llythyrau ganddynt yn cadarnhau hynny.
- Y cyflogir pobl leol.
- Y gofynnir am gael parhau i gynnal gweithgareddau yn y babell fawr ond bod peiriant i fonitro sŵn i'w osod yno.

Gofynnodd y Cadeirydd i ddeilydd y drwydded os oedd wedi cyflwyno'r llythyrau o gefnogaeth i ystyriaeth Adran Drwyddedu'r Cyngor. Mewn ymateb, hysbysodd nad oedd hynny wedi ei wneud.

Gan bod hyn yn dystiolaeth newydd yn cefnogi deilydd y drwydded ac nad oedd aelodau'r is-bwyllgor wedi gweld y llythyrau, hysbysodd y Cyfreithiwr mai mater i aelodau'r is-bwyllgor yw penderfynu os y derbynnir y dystiolaeth ychwanegol ai peidio ac hefyd os yw'r gwahanol bartion yn fodlon â hynny. Yn dilyn gohiriad, hysbysodd y Cadeirydd y gallai deilydd y drwydded gyflwyno'r llythyrau o gefnogaeth os yw'r gwahanol bartion a oedd yn bresennol yn cytuno â hynny. Nid oedd gan y gwahanol bartion unrhyw wrthwynebiad i dderbyn y llythyrau hyn.

Manteisiodd un o'r trigolion lleol a oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- 'Roedd yn byw oddeutu 200 llath o'r eiddo, mewn dyffryn distaw ac 'roedd y sŵn o'r gweithgareddau a gynhelir yn y babell fawr yn amharu ar y distawrwydd.
- Ers y cynhaliwyd y gweithgaredd cyntaf yn y babell fawr yn dilyn caniatau'r drwydded yn 2009, nid yw'r sefyllfa gyda sŵn cerddoriaeth uchel wedi gwella.
- 'Roedd y sŵn yn amharu ar ei fwynderau ac yn enwedig ar ei blant ifanc ac 'roedd yn ystyried symud o'r ardal i fyw os bydd y gweithgareddau yn y babell fawr yn parhau.

Hysbysodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd nad yw'r cais wedi newid. Trafodwyd yr agweddau sŵn gyda deilydd y drwydded pan dderbyniwyd y cais yn 2009 pryd y datganwyd pryder y byddai chwarae cerddoriaeth chwyddedig yn y babell gyda potensial i greu niwsans ond rhoddwyd cyfle iddi sefydlu ei busnes. Parthed gosod lefelau sŵn, cynigiwyd yn wreiddiol i gynnwys hyn ond ni chynhwyswyd hynny yn y drwydded. Nid oedd gan deilydd y drwydded, ar y pryd, ddim modd i sefydlu lefel sŵn gan nad oedd yr offer priodol ganddi i wneud hynny. Ers hynny ceisiwyd pwyso arni i edrych unwaith yn rhagor ar y mater ac hefyd i ystyried cynnal cerddoriaeth chwyddedig o fewn yr adeilad yn hytrach na thu allan. Deellir nad yw hynny'n ffitio gyda'r busnes. 'Roedd o'r farn mai ychydig iawn y gallai deilydd y drwydded ei wneud i atal sŵn

o babell fawr yn yr ardd rhag creu niwsans i drigolion lleol. Nododd y byddai'n bosibl gosod "acoustic drapes" yn y babell fawr ond byddai'n parhau i fod yn anodd i reoli sŵn yno.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau'r cais am adolygiad a pheidio â chaniatau cerddoriaeth chwyddedig gael ei chwarae yn y babell fawr a olygai felly ddileu'r elfen cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio yn allanol o'r drwydded.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – SIOP CO-OP, 14 MAES TALARRAN, DOLGELLAU

(Nododd y Cadeirydd ei fod yn Is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd a bod y Cynghorydd Delwyn Evans yn Gadeirydd y Grŵp hwnnw a hyd at 2008 'roedd yn aelod o Gyngor Tref Dolgellau ac felly 'roedd yn adnabod y Cyngorydd Evans yn dda. 'Roedd wedi tynnu sylw'r Uned Gyfreithiol at y mater a gofynnodd i'r gwahanol bartion os oeddynt o'r farn y byddai hyn yn debygol o effeithio ar y gwrandawiad. 'Roeddynt o'r farn na fyddai hyn yn effeithio ar y gwrandawiad.)

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Ar ran Siop Co-op, Dolgellau:** Y Mri Craig Jones a Wayne Stretch

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Cyngor Tref Dolgellau:** Y Cynghorydd Delwyn Evans

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Siop Co-op, 14 Maes Talarran, Dolgellau i ymestyn yr oriau agor presennol rhwng 06.00 a 23.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.00 a 22.30 ar ddydd Sul.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu ac 'roedd Cyngor Tref Dolgellau yn gwrthwynebu'r cais. Nid oedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd na'r Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw sylwadau ar y cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd cynrychiolydd ar ran y cwmni y cyflwynwyd y cais gwreiddiol i ymestyn yr oriau agor rhwng 06.00 a 23.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.00 a 22.30 ar ddydd Sul gan mai hyn oedd polisi'r cwmni ar gyfer eu siopau drwy Prydain. Fodd bynnag, nid oedd angen i'r siop yn Nolgellau agor am 06.00 gan nad oedd galw am hynny a gofynnir yn hytrach am gael agor rhwng 07.00 a 23.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.00 a 22.30 ar ddydd Sul.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu bod gan yr heddlu lleol bryderon ynglyn â'r oriau y gofynnir amdanynt yn y cais gwreiddiol gan bod problemau yfed dan oed yn ardal yr hen lain bowlio a'r ganolfan hamdden sydd gerllaw'r eiddo. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r eiddo hwn i wrthwynebu'r cais nac unrhyw awgrym bod alcohol wedi ei brynu gan rhai dan oed yno. 'Roedd yn croesawu diwygio'r cais i agor yr eiddo am 07.00.

Parthed y cyfeiriad at teledu cylch cyfyng yn y cais, nododd y dylai'r cofnodion teledu cylch cyfyng gael eu cadw am o leiaf 31 diwrnod ac nid am 21 diwrnod fel a nodir yn y cais. Mewn ymateb, hysbysodd cynrychiolydd ar ran y cwmni iddo dderbyn cadarnhad gan y siop bod y system teledu cylch cyfyng presennol yn cadw'r cofnodion am 28 diwrnod ac hysbysodd Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu ei fod yn fodlon â hynny.

Cynrychiolwyd Cyngor Tref Dolgellau gan y Cynghorydd Delwyn Evans a nododd bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu i'r eiddo agor am 06.00 ond nid oedd gwrthwynebiad i agor am 07.00.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Siop CO-op, 14 Maes Talarran, Dolgellau fel a ganlyn –**

**a) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff O) fel a ganlyn -**

- **Dydd Llun i ddydd Sadwrn – rhwng 07.00 a 23.00**
- **Dydd Sul – rhwng 10.00 a 22.30 (fel ar y drwydded bresennol)**

**b) Bod y cofnodion teledu cylch cyfyng yn cael eu cadw am 28 diwrnod.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.45pm